
Egni a chynaliadwyedd T213

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

A yw tanwyddau ffosil yn rhedeg allan? A all ynni niwclear, prosesau dal a storio carbon neu ffynonellau egni adnewyddadwy ddatrys problem cynhesu byd-eang? Sut y gallwn sicrhau cyflenwadau glân a diogel o egni cynaliadwy i'r DU, a'r byd, er gwaethaf lefelau cynyddol y boblogaeth a chyfoeth? Yn y modiwl hwn, bydd myfyrwyr yn edrych ar yr egwyddorion sylfaenol sy'n sail i'r broses o ddylunio egni a systemau cyflenwi egni a'r defnydd effeithlon a wneir ohonynt. Gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau astudio a gweithgareddau ar-lein, byddant yn dysgu sut i ddefnyddio'r dulliau gwyddonol a mathemategol priodol a gymhwysir at faterion sy'n gysylltiedig ag egni.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd mewn gwyddor ffisegol neu wyddor yr amgylchedd, neu beirianeg.
- profiad ac arbenigedd diweddar ym maes egni a thechnolegau cynaliadwy
- arbenigedd mewn helpu myfyrwyr â rhifedd, yn cynnwys cyfrifiadau economaidd a thechnegol sy'n berthnasol i egni
- dealltwriaeth o'r dadleuon cyfredol ym maes egni.

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- profiad o *Egni ar gyfer dyfodol cynaliadwy* (T206) neu gwricwlwm tebyg
- diddordeb mewn dysgu electronig sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr ac ymrwymiad i hynny
- aelodaeth o gorff proffesiynol perthnasol.

Manylion y modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl 30 cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:

Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	3
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	3.5

Gallai fod cyfleoedd i Ddarlithwyr Cyswllt ymgymryd â gwaith asesu cysylltiedig y ceir tâl amdano – byddwn yn cysylltu â chi ar wahân os yw'n berthnasol.